

PENNOD 7: DINAS DAFYDD

Micah 5. 2

Ond ti, Bethlehem Effrata, sy'n fechan i fod ymhlith llwythau Jwda, ohonot ti y daw allan i mi un i fod yn llywodraethwr yn Israel, a'i darddiad yn y gorffennol, mewn dyddiau gynt.

Yn ôl Luc, cafodd Iesu ei eni ym Methlehem yn ystod teyrnasiad Octafiws, a adnabyddwyd fel Cesar Augustus (22 CC i 14 OC). Gor-nai oedd Gaiws Octafius i Julius Cesar trwy briodas. Darllenwyd ewyllys Cesar ar ôl ei loffruddiaeth a gwnaed Octafiws yn etifedd iddo. Newidiodd ei enw i Gaius Julius Cesar Octafianus. Lladdwyd tri chant o seneddwr a dwy fil o farchogion ganddo fe a Marc Antony cyn iddynt drechu byddin Brutus. Syrthiodd Marc Antony o dan swyn Cleopatra, brenhines yr Aifft; torrodd ei berthynas ag Octavius gan ysgaru Octafia, merch Octafiws. Torrodd rhyfel allan rhyngddynt; daeth i ben wrth i Antony a Cleopatra ladd eu hunain. Rhoddwyd yr enw Augustus i Octafius gan Senedd Rhufain yn y flwyddyn 27 CC. Er iddo gadw ffurfiau gweriniaeth Rufain, Augustus oedd dyn mwyaf pwerus y byd ac, ar ben hynny, fel y Pontifecs Macsimus, Archoffeiriad Rhufain, ef oedd llywodraethwr ysbrydol a secwlar yr ymherodraeth. ``Augustus oedd sylfaenydd ymherodraeth Rhufain a'r Pax Romana. Cafodd ei wneud yn dduw gan y Senedd ar ôl ei farwolaeth yn y flwyddyn 14 OC. Nes ymlaen, yn ddinas Roeg-Rufeinig Helicarnassus yn Asia Leiaf dadorchuddiwyd arysgrif sy'n ei ddisgrifio fel "gwaredwr yr holl fyd." Yn ôl disgrifiad John Buchan o angladd Augustus, "bu dynion yn cysuro ei gilydd trwy ddweud mai duw oedd Augustus a nid yw duwiau'n marw."³¹ Ond marw a wnaeth. Yn ystod ei fywyd trefnodd i'w lys-fab a mab-yng-nghyfraith, Tiberius, fod yn gyd-raglyw gydag ef, i gymryd llawn gyfrifoldeb ar ei ôl.

I Luc, bu Cesar Augustus, teyrn paganaidd y byd, yn gyfrwng yn llaw Duw fel y bu Cyrws, brenin Persia, a ryddhaodd yr Israeliaid o'u caethiwd ym Mabilon.³² Trwy alw am y cyfrifiad, y mae gan Augustus ran i'w chwarae yn paratoi'r ffordd i Frenin arall, y byddai terfynau ei deyrnas yn ehangach o lawer na ffiniau ymherodraeth Cesar.

Dihareb oedd Rhufain am gyfoeth, grym ac awdurdod, yn ogystal â chynllwyn, llygredigaeth a drygioni. Daeth ei milwyr, gweision sifil a gweithwyr o blith y bobloedd a drechwyd gan Rufain, tra bod ei dinasyddion yn galw'n ddibaid am "Fara a Syrcasau." Yn ôl Theodore Mommsen (1817-1903), hanesydd mawr Rhufain, "Roedd y byd yn hen a neb, hyd yn oed Cesar, yn medru ei wneud yn ifanc eto." Ceir y fath bennodau o bryd i'w gilydd yn hanes y byd.

Ar y llaw arall, tref fechan oedd Bethlehem, tua saith milltir o Jerwsalem a'i hanes yn rhoi arwyddocâd iddi. Ceir y cyfeirio cyntaf sydd ar gael mewn llythyr gan Abdu-Heba, tywysog Jerwsalem yn y bedwaredd ganrif a'r ddeg cyn Crist: cwyna fod "Bit-Lahmi wedi mynd drosodd at yr Apirw" [gelynyon Bit-Lahmi?] Yn Genesis 35.19 yr ymddengys am y tro cyntaf yn y Beibl: "Yna bu farw Rachel, a chladdwyd hi ar y ffordd i Effrath, hynny yw Bethlehem." Yno y mae ei beddrod o hyd. Mewn dyddiau hapusach bu gwagedd yn methu â chenhedlu yn ymweld â beddrod Rachel i weddio ond, erbyn hyn, ond Iddewesau sy'n cael mynediad. Ceir cyfeiriadau eraill yn yr Hen Destament, yn arbennig yn Llyfr Ruth, ond y peth pwysicaf yn yr Hen Destament am y dref yw ei chysylltiadau â'r Brenin Dafydd. Tref frenhinol oedd hon.

Pa dystiolaeth sydd am y cyfrifiad y mae Luc yn sôn amdano? Cynhaliwyd cyfrifiad o dro i dro ar gyfer codi trethi a gorfodaeth filwrol yn nhalaith yr Aifft o'r ail fileniwm CC ymlaen. Y mae yna ddogfen Roeg bapurfrwyn ³³ o'r flwyddyn 104 OC, sy'n cynnwys gorchymyn oddi wrth Gaius Fibius Macsimus, rhaglaw yr Aifft 103-107 OC i bawb sy'n byw yn yr ardaloedd dan ei reolaeth i ddychwelyd i'w cartrefi i gofrestru (*apographes*) o flaen un Ffestus, prif swyddog gŵyr meirch. Rhydd Ffestus wedyn ddogfennau i'r sawl a gofrestrodd i brofi iddynt wneud. Fel arfer y mab hynaf fyddai'n mynd a rhoi manylion o bawb yn ei gartref a'r holl eiddo, gan gynnwys aelodau o'r teulu, lletywyr, gweision a chaethweision, Rhaid cofnodi enw ac oedran pob un ynglyn a'i berthynas â'r pen-teulu. Cynhaliwyd cyfrifiad yng Nghâl yn y flwyddyn 27 CC lle cafwyd gwrthwynebiad llym a therfysg.

Cynhaliwyd y cyfrifiad hwn "pan oedd Cyrenius yn llywodraethu ar Syria."³⁴ Gwyddom fod Publius Sulpicius Cyrenius (51 CC-21 OC) yn aelod o deulu aristocrataidd Rhufeinig. Cafodd ei benodi yn raglaw ar dalaith Syria (yn cynnwys Samaria, Jwdea a Idumea) yn y flwyddyn 6 Oed Crist, ar ôl i Herod Archelaus, mab Herod Fawr, ethnarch' Jwdea gael ei alltudio gan Rufain.³⁵ Dychwelodd Cyrenius i Rufain chwe mlynedd wedyn, a bu'n agos at Gesar Augustus hyd nes iddo farw naw mlynedd wedyn. Anrhydeddwyd ef gydag angladd gyhoeddus. Dyma'r hyn sydd gan yr hanesydd Joseffws i ddweud amdano:

Seneddwr Rhufeinig oedd Cyrenius. Gwasanaethodd fel ynad nifer o weithiau cyn iddo gael ei benodi'n gonswl. Roedd yn ddyn o urddas mawr. Daeth i Syria y pryd hwn gydag eraill i nodi eu cyfoeth. Danfonwyd Coponius gydag ef, gŵr o urdd marchogion, i gymryd y grym goruchaf dros yr Iddewon. Hefyd, daeth Cyrenius ei hun i Jwdea, a ychwanegwyd yn awr at dalaith Syria, i nodi eu cyfoeth a gwaredu arian Archeleus.

Yn ôl Joseffws, bu'r cyfrifiad hwn ymhlith achosion y gwrthryfel Jwdas y Galilead yn erbyn Rhufain,³⁶ gan honni bod y cyfrifiad a'r trethi fu'n ganlyniad iddo yn fath ar gaethwasiaeth. Er i'r gwrthryfel hon fethu, gwelodd Joseffws

Y Noson Honno: Myfyrdodau trwy'r adfent gan Thomas Ivor Rees

fudiad y Selotiaid fel datblygiad ohoni.

Fel y nodwyd, anodd deall bod Mair gyda Joseff ar y daith anodd hon, onibai bod yna berygl yn ei gadael yn Nasareth. Felly mae'n teithio gyda ef i Fethlehem (Tŷ'r Bara), wedi ei gosod mewn ardal ffrwythlon iawn, gydag anialwch Sinai i'r de a'r anialwch sy'n arwain i lawr at y Môr Marw a Dyffryn Iorddonen ac wedyn gwlad Moab i'r dwyrain. O'r lle hwn y daw Bara Bywiol Duw.

Mae'r pâr yn cyrraedd Bethlehem ar adeg brysur iawn, a'r dref yn orlawn. Dim "lle iddynt yn y gwesty", medd Luc. Roedd y gwesty'n orlawn o bobl â hawl i fod yno. Mae'n bosibl eu bod yn aros yno'n rheolaidd, neu wedi trefnu o flaen llaw.. Digion bosibl bod gan y bobl eraill y cerbydau diweddaraf neu'r ceffylau cyflymaf. Rhaid i rywun fod yn olaf. Fel arfer, dyna'r bobl dlawd.

Ond beth am dylwyth? Gan fod Mair a Joseff o linach Dafydd, rhaid bod yno berthnasau o ryw fath. A oedd pob tŷ yn y dref mor llawn fel nad oedd yn bosibl cadw deddfau lletygarwch, yn arbennig i rywun yng nghyflwr Mair? Pan oedd fy mrawd-yng-nghyfraith yn y chweched dosbarth, cafodd ei wahodd i fynd i Lundain gan ffrind o Iddew. Pan ofynodd "Ble ydym yn aros?" daeth yr ateb, "Wn i ddim eto." Wedi cyrraedd Llundain, aethant i stryd o dai mawrion yng Ngogledd Llundain. Ar ôl i'w ffrind archwilio'r tai ag arwydd plyglyfr arnynt, dywedodd, "Gwna hwn y tro!" Curodd y drws a dweud pwy oedd ei dad a ble oedd yn byw, a chrosawyd y ddau fel gwesteion anrhydeddus am dair noson. Mae disgrifiad Luc o ddigwyddiadau'r Nadolig cyntaf yn codi cwestiynnau lawer am ein dehongliadau traddodiadol. Cawn ein harwain gan ddramâu'r Geni i gredu bod plentyn Mair yn cyrraedd ar unwaith wedi iddynt ddod i Fethlehem, ond mae'r uniongyrchedd hyn yn absennol o'r efengyl. "Pan oeddent yno, cyflawnwyd yr amser iddi esgor.." Beth ddigwyddodd yn y cyfamser? A aeth Joseff o dŷ i dŷ, gan gael ei droi i ffrwd? A gyrhaeddodd perthnasau neu gymdogion o Nasareth o flaen y ddau, gan roi hanes cyflwr drygionus y ferch ifanc a'r gwarth ar y teulu a'r dref? A oedd yna westai eraill ym Methlehem a phob un yn llawn, lle clywodd Joseff y gair "Llawn!"? Pethau cymharol prin oedd gwstai. Gall *Kataluma*, y gair Groeg yma olygu 'gwesty' neu 'ystafell i ymwelwyr'. Ceir yr gair yn Luc 22.11: "Y mae'r athro yn gofyn i ti, 'Ble mae f'ystafell, lle yr wyf i fwyta gwledd y Pasg gyda'm disgyblion?'" Yn Luc 10.34-35 ceir sôn am westy: "... gosododd ef ar ei anifail ei hun, a'i arwain i lety, a gofalu amdano. Trannoeth tynnodd ddau ddarn arian allan a'u rhoi i'r gwsteiwr.." Nid *kataluma* sydd yma ond y gair Groeg *pandocheion*. Dadleua rhai ysgolheigion na fyddai Mair wedi ystyried mynd i westy am fod ganddynt enw drwg iawn ond gellir dadlau hefyd bod hynny'n ddigon o reswm i'r Gwaredwr gael ei eni yno.

Hyd yn oed heddiw tŷ un ystafell sydd gan lawer o deuluoedd Palesteinaidd, heb unrhyw le ychwanegol i'r plant, heb sôn am ymwelwyr. Peth cyffedrin iawn yma yn yr Oesoedd Canol oedd i deuluoedd a'u hanifeiliaid fyw dan yr un to, gan sicrhau fod yr anifeiliaid yn ddiogel a hwythau'n rhoi gwres i'r teulu.

Ond i ddod yn ôl at *kataluma*? Sut caiff ei gyfieithu gan geiriaduron? "Gwesty, llety" yw geiriau *Lexicon of Liddell and Scott (wedi cwtogi argraffiad, 1949)* ac *A Pocket Lexicon to the Greek New Testament (1949)*. Euthum at fy nghyfrifiadur am gyfieithiadau mwy modern a chael geiriau tebyg: Cyfieithiad y *The New American Standard Greek Lexicon* yw (1) gwesty, llety (2) ystafell fwyta. Defnyddir y gair *kataluma* sawl gwaith yng nghyfieithiad Groeg yr Hen Destament (LXX). Er engraifft, Jeremia 14 .8 ym Meibl 2004: "Gobaith Israel, a'i geidwad yn awr yn ei adfyd, pam y byddi fel dieithryn yn y tir, fel ymdeithydd yn lledu pabell i aros noson," tra bod William Morgan yn cyfieithu'r adnod fel hyn: "fel ymdeithydd yn troi i lettŷa dros noswaith..." Pabell a llety. Yr hyn sydd gan y *Revised English Bible (1989)* yw: "must you be like a stranger in the land, like a traveller breaking his journey to find a night's lodging." Yr awgrym yw na all yr Arglwydd gael croeso gan ei bob lei hun ac fe â felly i chwilio am le fel un sy'n talu am ei lety. Ni cheir yma na pherthynas nac undod, a defnyddir y gair *kataluma* i awgrymu dieithrwch.

Yr hyn a wnâ'r adnod o Jeremia yw tanlinellu trasedi geiriau Luc: "dim lle yn y gwesty nac mewn ystafell ymwelwyr." Yr un gair, *kataluma*, sydd gan Marc a Luc i ddisgrifio yr Oruwch Ystafell lle treuliodd Iesu ei noson olaf gyda'i ddisgyblion. Y mae rhai ysgolheigion yn ceisio defnyddio'r defnydd yn hanes yr Oruwch Ystafell fel rheswm i wrthod "gwesty" yn hanes y Geni. Ond, gan fod *kataluma* yn awgrymu gwrthodiad ym Methlehem, gall gael yr ystyr yn yr Oruwch Ystafell ond y gwrthwyneb sy'n wir yma, gan fod Iesu wedi cael noddfa gan yr Esseniaid, y sect biwritanaidd y tu allan i brif ffrwd Israel. Yma yn Oruwch Ystafell yr Esseniaid y cafodd Iesu, gwrthych casineb a gwrthodiad, groeso i ddathlu'r Pasg gyda'i ddisgyblion ar y noson cyn iddo gael ei groeshoelio a rhaid iddynt hwy hefyd gerdded ffordd y Groes.

Yr hyn sy'n glir o hanes Luc yw nad oes le mewn cartref na gwesty. Rhaid i'r plentyn gael ei eni rhywle arall. Yna, cymerodd gwsteiwr trugarog drueni arnynt gan gynnig lle gwahanol iddynt (efallai am bris llai). Stabl ydyw, medd traddodiad. Ble arall fyddai preseb ar gael? Ni sonia Luc am anifeiliaid. Sonir am ych ac asyn mewn efengylau apocryffaidd, sy'n defnyddio geiriau Esea 1.3: "Y mae'r ych yn adnabod y sawl a'i piau, a'r asyn breseb ei berchennog, ond nid yw Israel yn adnabod, a nid yw fy mhobl yn deall." Yr hanesydd Lladin, Marcus Iunianus Iustinus (Iwstin Merthyr) Oed Crist yw'r cyntaf i ysgrifennu am ogof. Yn ei *Ddeialog â Trypho* (tua 150 Oed Crist), mae'n dweud i'r Gwaredwr gael ei eni mewn ogof ger pentref Bethlehem. Wedyn yn *Protoevangelium Iago*, gwaith apocryffaidd o'r ail ganrif dywedir hyn:

Daethant i ganol y ffordd, a dywedodd Mair wrtho, "Tyn fi lawr o [gefn yr asyn] canys mae'r hyn sydd tu fewn

Y Noson Honno: Myfyrdodau trwy'r adfent gan Thomas Ivor Rees

i fi yn pwyso arnaf i ddod allan". A chymerodd hi i lawr o [gefn yr asyn], a dywedodd wrthi, "I ble gallaf dy arwain a chuddio dy warth? Canys anialwch yw'r lle hwn. A daeth o hyd i ogof a chymryd hi i fewn, gan adael ei ddau fab wrth ei hochr, ac aeth i chwilio am fydwraig yn ardal Bethlehem.

Nid oes yr un cyfeiriad at fydwraig yn yr efengylau, lle sonnir yn unig am Joseff. Ydy gwarth geni yn ddibriod yn golygu bod rhaid iddi wynebu'r geni, nid yn unig heb holl gymorth meddyginiaeth a nysio modern ond hyd yn oed heb na gwely glân, neu cymorth mamau eraill ac yn arbennig ei mam?

Codwyd llawer o dai uwchben ogof, fel lleoliad traddodiadol cartref y teulu yn Nasareth. Y mae hyn yn wir am Gapel y Geni. Rhan yw'r capel o gyfres o ogofeydd a mynediadau tan-ddaeear sy'n rhedeg o dan Fasilica'r Geni ym Methlehem ac Eglwys Sant Catrin y drws nesaf. Pob dydd am hanner dydd fe â gorymdaith Gatholig i lawr grisiau o eglwys Sant Catrin, pob person â channwyll a llyfr gweddi Lladin a cherdded ar hyd y mynedfeydd i Gapel y Geni, gan ganu Salmau, profiad cofiadwy i'r awdur yn 1989.

Ond os byddai gŵr y tŷ wedi cael gwybod pwy oedd wrth ei ddrws – oni byddai wedi troi allan breswylwyr yr ystafell? Neu beth am y gwesteiwr? Beth pe byddai wedi deall pwy oedd plentyn y ferch hon? Byddai wedi sicrhau lle i'r teulu ar unwaith, gan troi pobl eraill allan, a bod rhaid. Peth da i'r busnes fyddai rhoi arwydd uwchben y drws yn darllen, "Trwy apwyntiad i Frenin y Brenhinoedd." Byddai cyngor y dref wedi gosod plac ar y wal i gofio'r digwyddiad mawr. Ond doedd neb yn gwybod, neb i fod i wybod. Y cyfan a welsant oedd merch ifanc, ddibriod efallai, ar fin esgor ar fachgen o werinwr a hen ddyn ddylai wybod yn well. Baich ar y gymuned yw pobl ddidoreth fel y rhain, heb haeddu unrhyw gymorth gan bobl sy'n gweithio'n galed am eu bywoliaeth.

Yn yr ogof-stabl "esgorodd ar ei mab cyntafanedig, a rhwymodd ef mewn dillad baban, a'i osod mewn preseb..." Nid dillad baban sydd yma ond cadachau. Arferiad hen a chyffredinol oedd rhoi plentyn mewn cadachau, yn bendant yn Ewrop tan yr ail ganrif a'r bymtheg. Rhwymwyd y plentyn mewn stribedi o frethyn yn dynn, er mwyn ei gadw'n gynnes a sicrhau bod y breichiau a'r coesau yn tyfu'n syth. Y gwir yw bod yr arferiad yn achosi cyfyngu peryglus.

Dywedir i eglwys fechan gael ei chodi uwchben yr ogof gan Gristnogion cynnar. Chwalwyd hon gan yr Ymerawdwr Tiberius a chododd deml i Adonis yn yr unfan, er mwyn dileu pob atgof am y Crist. Pa ddaeth Helena, mam yr Ymerhodr Cystenon i Fethlehem a gofyn ymhle cafodd y Gwarddwr ei eni, dangoswyd y deml iddi. Commisynwyd y Basilica bresennol yn y flwyddyn 321 gan gael ei chysegro gan Helena ar ddydd olaf mis Mai 338. Cafodd yr adeilad ei losgi i lawr yn 530 yn ystod gwrthryfel y Samariaid yn erbyn Rhufain. Codwyd yr eglwys bresennol gan yr Ymerawdwr Justinian yn yr un lle yn 565.

Ysgrifennodd Jerome, cyfieithydd cyntaf llyfrau'r Beibl o'r Hebraeg a Groeg i'r Lladin (Y Fwlgad), yn ei Epistol AD 58:

O amser Hadrian (ail ganrif Oed Crist) hyd at teyrnasiad Cystenin, am tua cant, wyth deg o flynyddoedd, Bethlehem, yn awr yn eiddo i ni, a man mwyaf cyssegredig y byd... gafodd ei chysgodi gan llwyn Thammuz, hynny yw Adonis, ac yn yr ogof lle lefodd y plentyn Meseia, wylwyd am ordderch Fenws.

Mae realiti man geni Iesu ymhell o olygfeydd ein cardiau Nadolig a syniadau modern am lendid yn absennol. Stabl wrth ei gwaith oedd y lle hwn, gyda phob sŵn ac arogl sy'n perthyn i stabl; heb unrhyw gysur ond bod yr anifeiliaid yn rhannu rhywfaint o'u gwres.

Amhosibl cymharu y geni hwn i unrhyw geni brenhinol; mae'n debycach i eni plentyn o ffoadur yn ein byd ni. Anghofwyd am bron pob geni brenhinol, ond caiff y geni hwn ei gofio trwy'r byd i gyd, mewn llawenydd a diolchgarwch.

Dduw ein Tad, danfonaist dy Fab i'w eni fel Tywysog Tangnefedd ym Methlehem. Gweddiwn dros bob Bethlehem a'r Wlad Sanctaidd i gyd, a phawb sy'n byw mewn mannau o ofn a therfysg. Boed i'th Ysbryd Glân ddod â chyfiawnder, cymod a heddwch tu fewn a rhwng y cenhedloedd, tu fewn i'th Eglwys ac yn ein calonnau; trwy Iesu Grist ein Gwarddwr.

Cwestiynau i'w hystyried neu eu trafod

Beth yw arwyddocâd Bethlehem yn stori'r Geni?

Ydych chiwi'n credu nad rhywbeth ymhell yn ôl yw'r Nadolig, ond realiti presennol? Sut ydych chiwi'n dangos hynny?